


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Grantiau Bach - Gorchuddio Iardiau

## Datganiad o Ddiddordeb
## Canllawiau sut i gwblhau

# Cynnwys

**Prif Negeseuon** .......... 3
**Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein** .......... 3
**Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau – Canllaw Sut i Gwblhau** .......... 3
**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Mewngofnodi** .......... 4
**Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan** .......... 5
**Tudalen Ffurflenni** .......... 5
**Dechrau arni** .......... 6
**Parhau â'ch Cais / Dechrau Eto** .......... 6
**Cyflwyniad** .......... 7
**Hysbysiad Preifatrwydd** .......... 8
**Cwestiynau Pwy sy'n Gymwys** .......... 9
**Dewis Eitemau** .......... 9
**Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb** .......... 13
**Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau** .......... 14
**Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno** .......... 15
**Ar ôl Cyflwyno'r Ffurflen yn Llwyddiannus** .......... 15

Cyhoeddwyd gan: Llywodraeth Cymru
Hawlfraint y Goron © 2025
WG52856 ISBN: 978-83625-047-0

## Prif Negeseuon

## Cofrestru ar gyfer RPW Ar-lein

I gofrestru manylion eich busnes am y tro cyntaf, rhaid i chi lenwi’r ffurflen gofrestru ar-lein. I gael mwy o fanylion, darllenwch y canllawiau ar sut i gofrestru . Os oes angen newid manylion eich busnes, gallwch newid y rhan fwyaf ohonyn nhw ar-lein. Ond, efallai y bydd angen mwy o fanylion ar Lywodraeth Cymru ar gyfer newidiadau mawr. Cysylltwch â’r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am ragor o wybodaeth.

## Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau – Canllaw Sut i Gwblhau


Bydd y cyfarwyddiadau hyn yn rhoi canllawiau cam wrth gam i chi ar sut i gwblhaueich Datganiad o Ddiddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn darparu'r canllaw hwn yn Gymraeg a Saesneg fel sy'nofynnol o dan Gynllun Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru.

Os ydych yn cael problemau neu os na allwch gael mynediad i'n gwefan, ffoniwchDdesg Gymorth Ar-lein RPW ar 0300 062 5004.

# Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Mewngofnodi

I Ddatgan Diddordeb yn y Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, ewch i'ch Cyfrif RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth neu One Login GOV.UK.


Llywodraeth Cymru Welsh Government

RPW Taliadau Gwledig Cymru Ar-Lein Online Rural Payments Wales

English

## Rydyn ni'n newid y ffordd rydych yn mewngofnodi ar RPW Ar-lein

Mae manylion mewngofnodi RPW Ar-lein yn newid er mwyn defnyddio One Login GOV.UK. O fis Ionawr 2026, ni fyddwch yn gallu mewngofnodi ar RPW Ar-lein trwy Borth y Llywodraeth.

Bydd angen ichi barhau i ddefnyddio Porth y Llywodraeth os:

- nad ydych wedi mynd i'ch cyfrif (CRN) trwy One Login GOV.UK o'r blaen ac nad ydych wedi cael gwahoddiad i symud i One Login GOV.UK
- mae gennych wahoddiad i symud eich cyfrif (CRN) i One Login GOV.UK ond nid ydych yn dymuno gwneud hynny heddiw
- ydych yn weinyddwr Porth y Llywodraeth a'ch bod am symud eich CRN i One Login GOV.UK heddiw

Bydd gofyn ichi ddefnyddio One Login GOV.UK os:

- ydych wedi cael gwahoddiad i ymuno â busnes ar-lein
- ydych wedi defnyddio One Login GOV.UK i weld y CRN o'r blaen
- nad ydych wedi defnyddio RPW Ar-lein o'r blaen

**Dewiswch ffordd i fewngofnodi**

- ○ Mewngofnodi trwy Borth y Llywodraeth
- ○ Mewngofnodi neu gofrestru gan ddefnyddio One Login GOV.UK

Parhau

### Beth yw One Login GOV.UK?

One Login GOV.UK fydd y ffordd newydd i chi fewngofnodi i holl wasanaethau'r llywodraeth ganol. Gydag One Login GOV.UK, byddwch yn gallu cael at yr holl wasanaethau rydych chi'n eu defnyddio, i gyd mewn un lle, gyda'r un cyfeiriad e-bost a chyfrinair.

### Beth fydd yn newid i RPW Ar-lein?

Byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif One Login GOV.UK i weld yr holl fusnesau rydych yn gweithredu ar eu rhan. Ar ôl cofrestru neu ymuno â busnes ar-lein, cliciwch ar y busnes rydych am ei weld wrth fewngofnodi.

### Sut mae dechrau defnyddio One Login GOV.UK gydag RPW Ar-lein?

Yn gyntaf, cofrestrwch am gyfrif gyda One Login GOV.UK. Yna rhowch y cyfeiriad e-bost y gwnaethoch chi ei ddefnyddio i greu'ch cyfrif One Login GOV.UK i weinyddwr grŵp Porth y Llywodraeth eich cyfrif RPW Ar-lein.

Gweinyddwr y grŵp yw'r person sy'n ychwanegu aelodau at dîm ar Borth y Llywodraeth ac yn eu rheoli, hynny yw efallai prif gyswllt y busnes neu'r person sy'n rheoli'ch cyfrif RPW Ar-lein. Os mai chi yw'r unig un sy'n gwybod eich ID ar Borth y Llywodraeth, chi fwy na thebyg yw'r gweinyddwr.

Gall gweinyddwr y grŵp wahodd ei hun i'r cyfrif RPW Ar-lein ac yna defnyddio One Login GOV.UK i fewngofnodi. Gall wahodd pobl eraill i ddefnyddio'r cyfrif hefyd, gan ddefnyddio cyfeiriad e-bost ei gyfrif One Login GOV.UK.

### Sut mae cysylltu i ofyn cwestiwn?

Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch am y newid i One Login GOV.UK, Cysylltwch â ni


Dogfennau Canllaw | Cysylltwch â ni | Datganiad Hawlfraint | Datganiad Hygyrchedd | Cwcis | Preifatrwydd

Os ydych yn cael trafferth neu os nad ydych yn gallu defnyddio'ch cyfrif ar-lein, ffoniwch Ddesg Gymorth RPW Ar-lein ar 0300 062 5004.

Ar ôl mewngofnodi i'ch cyfrif ar-lein, fe welwch dudalen 'Hafan' RPW Ar-lein.

## Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein – Hafan

Er mwyn gweld ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, cliciwch ar y tab ‘Ffurflenni’ ar sgrin hafan RPW Ar-lein, fel y dangosir isod:





Bydd hyn yn mynd â chi i'r dudalen ‘Ffurflenni’.

I newid yr Iaith unrhyw bryd cliciwch ar y botwm ar y bar yng nghornel dde uchaf Gwybodaeth RPW Ar-lein. Bydd hyn yn eich galluogi i ddewis iaith eich Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau.

## Tudalen Ffurflenni

Ar ôl ichi ddewis y tab ‘Ffurflenni’ fe welwch eich Ffurflenni sydd ar gael ichi eu cwblhau. Dewiswch y Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau o'r rhestr.




## Dechrau arni

Ar ôl ichi ddarllen y Llyfrynnau Canllaw, er mwyn dechrau eich Datganiad o Ddiddordeb, cliciwch ar y botwm Dechrau.





## Parhau â'ch Cais / Dechrau Eto

Ar ôl dechrau ar eich cais, gallwch ei adael a mynd yn ôl ato wedyn. Os ydych yn agor cais rydych eisoes wedi dechrau ei lenwi, yna gallwch Barhau (botwm glas ar waelod y sgrin) neu Ddechrau Eto trwy glicio ar y ddolen yn y sgrinlun:




Cofiwch, os byddwch yn dewis Dechrau Eto, bydd hyn yn dileu’r holl atebion rydych wedi’u rhoi ac unrhyw wybodaeth y byddwch wedi’i hychwanegu.

Os ydych yn siŵr eich bod am Ddechrau Eto, cliciwch ar ‘Ydw’ neu os nad ydych chi, cliciwch ‘Na’ fel sydd ar y sgrin:




## Cyflwyniad


Dyma’r dudalen gyflwyno sy’n rhoi gwybodaeth am y Grant Busnes i Ffermydd – Gorchuddio Iardiau.




Ar ôl ichi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## Hysbysiad Preifatrwydd


Dyma'r Hysbysiad Preifatrwydd y mae'n rhaid ichi ei ddarllen.




Ar ôl ichi ddarllen yr wybodaeth, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## Cwestiynau Pwy sy'n Gymwys

Mae'n rhaid i chi ateb pob cwestiwn ar y dudalen hon.





Mae'r dudalen hon yn cynnwys gwiriadau cywirdeb data sylfaenol a bydd unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth yn ymddangos ar ôl ichi glicio '**Safio**' neu '**Nesaf**'.


Ar ôl ichi ateb pob un o'r cwestiynau, cliciwch ar y botwm Nesaf

## Dewis Eitemau


Cyn dewis eich eitemau, gwnewch yn siŵr eich bod wedi darllen y rhestr o Eitemau Cyfalaf Cymwys ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau yn Atodiad A i'r llyfryn canllaw. Bydd hyn yn rhoi'r manylebau, y gost a'r sgôr ar gyfer pob eitem i chi.




Cliciwch ar y botwm **Ychwanegu Eitem** i weld cwymplen o'r holl eitemau sydd ar gael.





Ar ôl ichi ddewis eitem, bydd y manylion yn ymddangos ar y sgrin nesaf.





Ar ôl ichi nodi'r nifer, cliciwch ar y botwm **Safio.**

Cliciwch ar **Dewis Lleoliad** er mwyn nodi lleoliad yr eitem.




Ar ôl ichi glicio ar **Dewis Lleoliad**, bydd y map yn ymddangos.




Chwyddwch y map neu defnyddiwch y swyddogaeth '**chwilio**' i ddod o hyd i'r parsel tir y mae'r eitem wedi'i lleoli ynddo.

Cliciwch yn y parsel tir er mwyn gosod y pwynt ar leoliad yr eitem.





Ar ôl ichi ddewis lleoliad yr eitem, cliciwch ar y botwm **Wedi gorffen**, bydd hyn yn mynd â chi yn ôl i'r sgrin Eitem a Ddewiswyd lle y caiff mân-lun o leoliad y map ei ddangos.




Nawr mae'n rhaid ichi ychwanegu eich ffotograff â geotag “cyn” o'r eitem a dewised gennych drwy glicio ar y botwm **Ychwanegu**.

Dewiswch y ffotograff o'r man lle rydych wedi'i gadw ar eich cyfrifiadur neu'ch gliniadur.




Ar ôl ichi ddewis eich ffotograff, cliciwch ar y botwm **Ychwanegu**.




Bydd y sgrin yn dangos bod y ffotograff wedi'i ychwanegu. Os byddwch am ei ddileu a'i ychwanegu unwaith eto, gallwch wneud hynny drwy glicio ar y botwm **Dileu**.



Caiff neges gwall ei dangos os yw'r ffotograff â geotag rydych wedi'i ychwanegu yn fwy na 30 metr i ffwrdd oddi wrth leoliad yr eitem rydych wedi'i nodi ar y map.

Os byddwch yn dewis eitemau ategol mewn nifer o leoliadau gwahanol, er enghraifft 100m o ddargyfeiryddion dŵr ar draws ffordd ('Sleeping Policemen') mewn un lleoliad a 300m mewn lleoliad arall, bydd angen ichi ddewis y rhain fel eitemau ar wahân a darparu ffotograffau o bob lleoliad.


Gallwch addasu neu ddileu'r eitem er mwyn cywiro'r lleoliad drwy glicio ar y botwm **Addasu** neu **Dileu**.





Ar ôl i'r holl eitemau gael eu dewis, bydd y sgrin **Dewis Eitemau** yn dangos y rhestr o eitemau.

### Tudalen Gyflwyno – Gwallau, Gwybodaeth a Chrynodeb

Mae'r dudalen hon yn rhoi crynodeb o'r eitemau rydych wedi'u dewis ac yn eich hysbysu o unrhyw wallau neu negeseuon gwybodaeth ar eich cais.






Ar ôl ichi fwrw golwg dros y crynodeb a chywiro unrhyw wallau cliciwch ar y botwm Nesaf.

**Tudalen Gyflwyno – Datganiadau ac Ymrwymiadau**


Mae'n rhaid ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a thicio'r blwch i gadarnhau eich bod wedi'u darllen a'ch bod yn cytuno â nhw.



Ar ôl ichi ddarllen y Datganiadau ac Ymrwymiadau a chytuno â nhw, cliciwch ar y botwm **Nesaf**.

## Tudalen Gyflwyno – Cyflwyno

I gyflwyno eich Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau, cliciwch ar y botwm **Cyflwyno**.




Ar ôl ichi gyflwyno'r ffurflen, byddwch yn cael cadarnhad y gallwch ei argraffu ar gyfer eich cofnodion eich hun.

## Ar ôl Cyflwyno'r Ffurflen yn Llwyddiannus

Caiff crynodeb o'r Ffurflen Datgan Diddordeb ar gyfer Grantiau Bach – Gorchuddio Iardiau rydych wedi'i chwblhau ei ychwanegu at y tudalen '**Negeseuon**' ar eich cyfrif RPW Ar-lein o dan y teitl “Dogfennau wedi dod i law Taliadau Gwledig Cymru”. Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio’r wybodaeth a gyflwynwyd yn drylwyr. Os bydd unrhyw wybodaeth yn anghywir, anfonwch ateb i’r Neges gan nodi eich pryderon. Dylech wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl dod o hyd i wybodaeth anghywir.

Os ydych yn cael problemau neu os na allwch gael mynediad i'n gwefan, ffoniwch Ddesg Gymorth Ar-lein RPW ar 0300 062 5004.